Prif Grant Gwirfoddoli Cymru
Dyfarniadau Cylch 2

Enw'r mudiad	Disgrifiad 50 gair	Sir	Dyfarniad grant
Elusen Adoption UK	Byddai'r prosiect hwn yn cynorthwyo Adoption UK yng Nghymru i wella profiadau gwirfoddolwyr trwy ddarparu'r gallu i roi cymorth un-i-un, gwella ymgysylltiad, hyfforddiant, cydnabyddiaeth, cael gwared ar rwystrau a gwella hygyrchedd a chynhwysiant, gan gefnogi newid diwylliannol ehangach mewn gwella profiadau gwirfoddolwyr o fewn fframwaith Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr.	Abertawe Bro Morgannwg Caerdydd Caerffili Casnewydd Pen-y-bont ar Ogwr Powys Sir Benfro Torfaen	£59,664.36
Age Connects Caerdydd a'r Fro	Bydd Age Connects yn recriwtio 80 o wirfoddolwyr newydd ac yn cryfhau'r gefnogaeth i'n 160 presennol drwy raglen dwy flynedd a fydd yn symleiddio prosesau cynefino, yn ehangu rolau o dan arweiniad gwirfoddolwyr ac yn moderneiddio hyfforddiant. Bydd y prosiect yn adeiladu cymuned gynaliadwy, gynhwysol ar draws gwirfoddolwyr Age Connects gan ddefnyddio adnoddau digidol ac ymgysylltiad o dan arweiniad cymheiriaid.	Caerdydd	£59,955.00
Age Cymru Gorllewin Morgannwg	Bydd y prosiect hwn yn cryfhau ymrwymiad craidd Age Cymru Gorllewin Morgannwg i wirfoddoli cynhwysol, gan roi llais cyfunol cryfach i wirfoddolwyr. Bydd Swyddog penodedig yn ymgysylltu â grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol i gyflwyno digwyddiadau ymgysylltu lleol rheolaidd ar draws Abertawe, Castell-Nedd Port Talbot a Phen-y-bont ar Ogwr, gan sicrhau bod gwirfoddolwyr yn teimlo'n gysylltiedig â'r ardal y maen nhw'n byw a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cynnwys yn llawn yn yr ardal honno.	Abertawe Castell-nedd Port Talbot Pen-y-bont ar Ogwr	£59,976.00

Enw'r mudiad	Disgrifiad 50 gair	Sir	Dyfarniad grant
Radio Cymunedol BGfm	Menter Radio Cymunedol dwy flynedd o hyd yw VoC sy'n grymuso trigolion nas gwelir ym Mlaenau Gwent drwy ddarlledu, digwyddiadau a gwirfoddoli. Gall cyfranogwyr ennill cymwysterau achrededig mewn sgiliau cyfryngau, cyflwyno sioeau byw a darllediadau allanol a chyfrannu at adrodd storïau sy'n magu hyder, cysylltiad cymdeithasol a chyflogadwyedd wrth ddathlu doniau a hunaniaeth leol.	Blaenau Gwent	£47,000.08
BikeAbility Cymru	Byddwn yn recriwtio a datblygu cymorth beicio, arweinydd marchogaeth a gwirfoddolwyr cynnal a chadw beiciau o blith pobl ifanc, pobl anabl a phobl sy'n chwilio am sgiliau cyflogadwyedd. Byddwn yn recriwtio Swyddog Gwirfoddoli, yn galluogi ein Swyddog Cynnal a Chadw i gefnogi gwirfoddolwyr i gynnal a chadw beiciau ac yn ennill achrediad Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr.	Abertawe	£55,255.32
MIND Aberhonddu a'r Ardal	Byddwn yn creu rhaglen arweinyddiaeth newydd o fewn Mind Aberhonddu a'r Ardal i recriwtio, hyfforddi a chefnogi gwirfoddolwyr newydd a phresennol i ymgymryd â mwy o gyfrifoldebau a dyletswyddau o fewn y mudiad. Bydd hyn yn creu cyfleoedd gwirfoddoli newydd ystyrlon, o safon uchel ac yn cefnogi'r gwaith o ehangu a datblygu ein gwasanaethau.	Powys	£57,753.75
Bulldogs Boxing & Community Activities	Bydd ein prosiect gwirfoddoli yn grymuso pobl leol i roi yn ôl trwy weithgareddau sy'n hybu llesiant, cynhwysiant a chysylltiad. Bydd gwirfoddolwyr yn cefnogi prosiectau awyr agored, sesiynau lles, derbyniadau busnes a digwyddiadau cymunedol, gan fagu hyder, adeiladu sgiliau a chreu cymunedau cryfach wrth wneud gwahaniaeth positif ar draws Castell-nedd Port Talbot.	Castell-nedd Port Talbot	£59,862.88

Enw'r mudiad	Disgrifiad 50 gair	Sir	Dyfarniad grant
Eglwys Bentecostaidd Caernarfon (Banc Bwyd Arfon)	Mae'r banc bwyd yn chwilio am gyllid i ddiogelu a datblygu ei rôl Cydlynydd Gwirfoddolwyr hanfodol, sy'n seiliedig ar lesiant a hyfforddiant gwirfoddolwyr ac ymdrechion i'w cadw. Bydd y prosiect dwy flynedd yn cynnal ac yn ehangu'r rhwydwaith gwirfoddoli, yn gwella cyfleusterau ac yn mesur effaith gymdeithasol trwy ddadansoddiad Enillion Cymdeithasol ar Fuddsoddiad (SROI) blynyddol, gan gryfhau sgiliau, hyder a gwydnwch cymunedol.	Gwynedd	£59,552.00
Glandŵr Cymru	Bydd Gwreiddiau Gwirfoddoli yn creu cyfleoedd cynhwysol a hygyrch ar hyd Camlas Trefaldwyn sy'n gyfoethog o ecoleg a threftadaeth. Bydd gwirfoddolwyr yn helpu i amddiffyn ei fioamrywiaeth unigryw trwy weithgareddau cadwraeth ac ymgysylltiad. Bydd Cyswllt Gwirfoddolwyr Ecolegol arbenigol yn cynnig hyfforddiant, arweiniad a mentora, a fydd yn sicrhau bod gwirfoddolwyr yn teimlo'n hyderus, yn werthfawr a chysylltiedig ac yn adeiladu diwylliant gwirfoddoli cynhwysol cryfach.	Powys	£59,680.50
Cwmni Buddiant Cymunedol Cardiff Basketball Foundation	Bydd y Cardiff Basketball Foundation yn recriwtio, hyfforddi a chefnogi gwirfoddolwyr ifanc 14+ oed o ochr ddeheuol Caerdydd i ddod yn hyfforddwyr, dyfarnwyr, swyddogion bwrdd ac yn fentoriaid cymheiriaid iau. Bydd gwirfoddolwyr yn ennill sgiliau, hyder a phrofiad wrth helpu i gyflwyno sesiynau pêl fasged, gwersylloedd gwyliau a digwyddiadau cymunedol cynhwysol.	Caerdydd	£23,510.00

Enw'r mudiad	Disgrifiad 50 gair	Sir	Dyfarniad grant
Cyngor ar Bopeth Sir y Fflint	Byddwn yn penodi aelod staff am 3.5 diwrnod yr wythnos i wella ymdrechion i recriwtio a denu gwirfoddolwyr ar draws Sir y Fflint, gan dargedu grwpiau amrywiol fel pobl ifanc a phobl anabl. Bydd y prosiect yn darparu hyfforddiant wedi'i deilwra, rolau hyblyg a chynlluniau cydnabod, gan gael gwared ar rwystrau i wirfoddoli, meithrin cynhwysiant a chynyddu effaith gymunedol.	Sir y Fflint	£59,998.09
City Hospice	Prosiect newydd yw 'Even better if' a fydd yn ehangu ac yn amrywio gwirfoddoli yn City Hospice. Trwy fanteisio ar 'brofiadau bywyd', byddwn yn creu rolau ystyrlon newydd i gyfoethogi gofal diwedd oes mewn modd positif. Bydd gwirfoddolwyr yn dod â'u profiad a'u tosturi, yn meithrin cysylltiadau a dulliau ymdopi ac yn lleihau ofn ac unigrwydd.	Caerdydd	£60,000.00
Coetir Anian	Byddwn yn gwella ansawdd profiadau gwirfoddoli yng Nghoetir Anian trwy benodi Cydlynydd Gwirfoddolwyr i roi parhad, cymorth, hyfforddiant a chydnabyddiaeth i wirfoddolwyr. Bydd hyn yn ein galluogi i ddarparu cyfleoedd gwirfoddoli cynhwysol i amrywiaeth ehangach o bobl o bob oed, a hybu lles ac ymdeimlad o ddiben.	Ceredigion	£58,989.60
Clwb Rygbi Pêl-Droed (RFC) Cwmbran	Rhaglen ddwy flynedd yn creu tair rôl cydlynydd gwirfoddolwyr newydd yn RFC Cwmbran i recriwtio, hyfforddi a chefnogi hyfforddwyr, rheolwyr tîm, rhieni a gwirfoddolwyr ifanc. Bydd y prosiect yn adeiladu capasiti, yn gwella llesiant ac yn cryfhau ymgysylltiad cymunedol drwy lwybrau gwirfoddoli cynhwysol, diogel a chynaliadwy.	Torfaen	£41,476.00

Enw'r mudiad	Disgrifiad 50 gair	Sir	Dyfarniad grant
Cyngor ar Bopeth Gwynedd	Dros ddwy flynedd, bydd Cyngor ar Bopeth Conwy a Gwynedd yn rhoi dulliau gweithredu newydd ar waith, gan drawsnewid profiad a diwylliant y gwirfoddolwr. Bydd recriwtio wedi'i dargedu, rolau hyblyg newydd, dysgu hybrid, darpariaeth a cherrig milltir a ddethlir yn cynnig cyfleoedd amrywiol. Bydd dysgu a gweithio tuag at achrediad Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr yn sicrhau bod datblygiadau'n parhau y tu hwnt i gyllid CGGC.	Conwy Gwynedd	£59,654.86
Disability Advice Project Ltd	Cyfleoedd i bobl anabl a gofalwyr gael profiad o wirfoddoli mewn amgylchedd gwaith. Rhoi cyngor arbenigol ar yr holl broblemau anabledd sy'n wynebu oedolion anabl, rhieni/gofalwyr plant anabl, pobl â chyflwr iechyd cronig neu gyflwr iechyd sy'n cyfyngu ar fywyd, eu teuluoedd a'u gofalwyr. Grymuso unigolion a chreu cymdeithas fwy cynhwysol.	Casnewydd Torfaen	£58,364.00
Discovery - Gwirfoddoli Myfyrwyr Abertawe	Mae Discovery yn creu cyfleoedd gwirfoddoli newydd yn y sector cyhoeddus i fyfyrwyr prifysgol gyda'r GIG, yr Heddlu, awdurdodau lleol ac ysgolion. Bydd y prosiect yn cael gwared ar rwystrau i fynediad trwy sesiynau untro hyblyg a threialon, hyfforddiant, sesiynau gwybodaeth, gan helpu myfyrwyr i gael profiad, gwella llesiant a dod yn ddinasyddion gweithredol wrth gefnogi gwasanaethau cyhoeddus hanfodol.	Abertawe	£48,410.24
Dolen Cymru Wales Lesotho Link	Bydd Dolen yn gwella ansawdd, cyrhaeddiad a chynaladwyedd ein rhaglen gwirfoddolwyr Iechyd ledled Cymru er mwyn ailsefydlu cymuned wirfoddoli gydweithredol. Bydd cryfhau seilwaith gwirfoddoli Dolen a datblygu cynllun strategol dan arweiniad gwirfoddolwyr yn cefnogi gwirfoddolwyr presennol a newydd gyda hyfforddiant, cyfleoedd i ddatblygu sgiliau, rhannu gwybodaeth a chyflwyno Cynhadledd Cymru-Lesotho.	Abertawe Castell-nedd Port Talbot Conwy Gwynedd Wrecsam Ynys Môn	£59,989.96

Enw'r mudiad	Disgrifiad 50 gair	Sir	Dyfarniad grant
Cyswllt Cymunedol Duffryn	Bydd "Gwreiddiau Duffryn: Tyfu Diwylliant o Wirfoddoli" yn cryfhau Duffryn drwy adeiladu'r capasiti a'r seilwaith sydd eu hangen ar gyfer cyfleoedd gwirfoddoli cynhwysol o ansawdd uchel. Wedi'i arwain gan gydlynydd newydd, bydd y prosiect yn datblygu systemau cynaliadwy, hyfforddiant a chymorth – gan ymwreiddio gwirfoddoli yn y mudiad a grymuso trigolion i gysylltu, cyfrannu a thyfu gyda'i gilydd.	Casnewydd	£59,580.96
Cwmni Buddiant Cymunedol (CIC) Ein Cegin	Bydd Tîm Cegin Teifi yn cynyddu capasiti'r gwirfoddolwyr, yn sefydlu systemau gwirfoddoli cadarn ac yn mynd i'r afael ag anghydraddoldeb mewn cyfranogiad. Bydd yn galluogi gwirfoddolwyr i gael llais uniongyrchol yn natblygiad Cegin Teifi, o'r cam peilot, trwy gyfres o ddigwyddiadau i gyd-ddylunio'r prosiect, ac felly'n codi statws gwirfoddolwyr ac yn dathlu eu cyfraniad.	Ceredigion	£60,000.00
Cwmni Buddiant Cymunedol Fieldwork Studio	Rhaglen wirfoddoli gwaith maes Cwmni Buddiant Cymunedol yw Cysylltu Pobl a Natur sy'n annog pobl o gymunedau amrywiol i gymryd rhan mewn gwaith monitro bioamrywiaeth ymarferol. Mae gwirfoddolwyr yn treulio dau fore'r mis yn cofnodi planhigion, trychfilod ac adar a lanlwytho'r data i'r ap SewBrec, gan ennill sgiliau, hyder a chysylltiad dyfnach ag amgylchedd naturiol Cymru.	Bro Morgannwg	£55,604.00

Enw'r mudiad	Disgrifiad 50 gair	Sir	Dyfarniad grant
Hyfforddiant Foundation For Sport	Bydd F4SC yn recriwtio a hyfforddi gwirfoddolwyr amrywiol i gefnogi ei raglenni craidd; Ramadan Ganol Nos, Nosweithiau Ieuenctid, Gwersylloedd aml-gamp a sesiynau gwrthdyniadol o amgylch Caerdydd. Byddwn yn cael gwared ar rwystrau (teithio, iwnifform, sifftiau hyblyg), yn rhoi hyfforddiant ar ddiogelu a hyfforddi ac yn creu llwybrau arweinyddiaeth fel bod gwirfoddolwyr yn gallu darparu chwaraeon ar y cyd sy'n cryfhau llesiant, ymdeimlad o berthyn a chydlyniad cymunedol.	Caerdydd	£60,000.00
g39	Rhaglen wirfoddoli arloesol yn g39, elusen celfyddydau gweledol cyfoes yng Nghaerdydd, yw Gweithgor. Trwy gyfnewid amser, sgiliau a hyfforddiant, mae gwirfoddolwyr yn helpu i lywio rhaglenni g39 wrth ddatblygu eu profiadau eu hunain. Mae cyfranogwyr yn meithrin rhwydweithiau gwerthfawr, yn cael mewnwelediadau ymarferol ac yn cryfhau cysylltiadau creadigol a phroffesiynol ar gyfer eu dyfodol.	Caerdydd	£59,032.80
GISDA Cyfyngedig	Bydd prosiect GISDA yn ehangu a theilwra cyfleoedd gwirfoddoli i bobl ifanc yng Ngwynedd, gyda chymorth hyfforddiant ar-lein, mewn cydweithrediad â'n bwrdd pobl ifanc. Rwy flaenoriaethu anghenion unigol a chymorth therapiwtig, byddwn yn grymuso pobl ifanc i adeiladu sgiliau, hyder ac ymdeimlad o ddiben trwy gyfleoedd gwirfoddoli amrywiol.	Gwynedd	£54,687.25
Safle Amaethyddiaeth â Chymorth Cymunedol (CSA) Glasbren	Mae CIC Glasbren yn Llansteffan, Sir Gaerfyrddin, yn gofyn am gymorth CGGC i wella ac amrywio eu cyfleoedd gwirfoddoli a chael gwared â rhwystrau i gyfranogi wrth iddynt drawsnewid fferm Ymddiriedolaeth Genedlaethol 134 erw yn hyb diogel, cynhwysol a heddychlon, seiliedig ar natur, ar gyfer eu cymuned.	Sir Gaerfyrddin	£59,200.00

Enw'r mudiad	Disgrifiad 50 gair	Sir	Dyfarniad grant
Goleudy Housing and Support Limited	Bydd Cydlynydd Gwirfoddolwyr newydd rhan-amser yn helpu Goleudy i recriwtio, hyfforddi a chefnogi mwy o wirfoddolwyr. Gyda llwybr hyfforddi clir a chysylltiadau cryfach â'r gymuned, bydd y prosiect yn gwella llesiant, yn cynyddu'r cyfranogiad ac yn gwneud gwirfoddoli yn rhan barhaol o fywyd lleol.	Abertawe	£15,921.04
Fforwm Ieuenctid Pafiliwn Grange	Caffi a arweinir gan y gymuned yw Prosiect Cafe The Training Ground. Yn ymroddedig i rymuso unigolion trwy adeiladu cysylltiadau, sgiliau ac ymdeimlad o berthyn trwy gyfleoedd gwirfoddoli yng nghymuned amrywiol Grangetown. Ein nod yw chwalu rhwystrau er mwyn sicrhau bod pawb yn cael cyfle i gyfrannu at eu cymuned mewn modd ystyrlon.	Caerdydd	£59,592.00
Cwmni Buddiant Cymunedol Happy Headwork Community	Rhaglen Wirfoddoli Lles Cynaliadwy yng Nghoed Cwm Penllergaer yw NatureNurture a gynhelir dwywaith y mis. Mae'n seiliedig ar Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, Nodau Datblygiad Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig a'r Inner Development Goals. Mae'n cyfuno: • Dysgu seicolegol ar gyfer twf mewnol • Gwybodaeth a sgiliau cadwraeth • Gwirfoddoli ymarferol mewn adfer coetiroedd • Ymchwil i lesiant cynaliadwy.	Abertawe	£28,512.00
HWB Cymunedol Porthi Dre	Bydd Porthi Dre yn cryfhau ei gapasiti drwy gyflogi Swyddog Gwirfoddolwyr i recriwtio, cefnogi a chadw gwirfoddolwyr ar draws pob prosiect. Bydd y rôl hon yn gwella profiad y gwirfoddolwr, yn cael gwared â rhwystrau i gymryd rhan ac yn ymwreiddio diwylliant o wirfoddoli, gan gyfrannu at Gymru â diwylliant bywiog, cymunedau cydlynus a mwy o gydraddoldeb.	Gwynedd	£59,110.00
Innovate Trust	Prosiect unigryw i bobl ag anableddau dysgu ddangos eu gallu i chwarae rôl werthfawr yn y gymuned drwy gymryd rhan mewn amrediad cyffrous ac ysgogol o waith gwirfoddol yn Sain Ffagan: Amgueddfa Werin Cymru a Pharciau Gwledig Bro Morgannwg.	Bro Morgannwg Caerdydd	£59,829.24

Enw'r mudiad	Disgrifiad 50 gair	Sir	Dyfarniad grant
KidCare 4U	Mae KidCare4U yn cyflwyno gweithgareddau a chymorth i deuluoedd incwm isel o gefndiroedd ethnig amrywiol. Rydym eisiau ehangu ein capasiti i allu cynnig mwy o gyfleoedd gwirfoddoli i'n cymunedau ethnig amrywiol. Rydym eisiau adeiladu ein capasiti i'n galluogi ni i gynyddu nifer y gwirfoddolwyr presennol.	Newport	£32,780.00
Llandysul A Phont Tyweli Cyf	Bydd y prosiect dwy flynedd hwn yn cryfhau ac yn ehangu gwirfoddoli o fewn Ymlaen a Dolen Teifi Llandysul a Phont Tyweli. Bydd Cydlynydd Gwirfoddolwyr yn gwella'r recriwtio, hyfforddiant a chydnabyddiaeth, yn sefydlu is-grŵp gwirfoddolwyr ac yn cyflawni achrediad Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr, gan ymwreiddio gwirfoddoli cynhwysol, dwyieithog, o safon uchel ar draws y ddau fudiad.	Ceredigion Sir Benfro Sir Gaerfyrddin	£51,207.97
Ymddiriedolaeth Sied Nwyddau Rheilffordd Llanelli	Arwyr Treftadaeth: Creu cyfleoedd o ansawdd i wirfoddolwyr, chwalu'r rhwystrau i wirfoddoli a dathlu cryfderau cymunedol. Uwchsgilio ein gwirfoddolwyr i greu'r Arwyr Treftadaeth a Sgwad y Sied – pobl ifanc yn dysgu sgiliau newydd ac yn creu hyb cymunedol cynhwysol sy'n agored i bawb.	Sir Gaerfyrddin	£38,214.95
Ymddiriedolaeth Rheilffordd Llangollen Cyf	Mae Train for Change yn creu profiad gwirfoddoli cynhwysol o ansawdd uchel. Byddwn yn recriwtio pobl heb gynrychiolaeth ddigonol a gwirfoddolwyr ifanc, yn darparu hyfforddiant achrededig gydag Agored Cymru, mentora a chyfleoedd i siarad Cymraeg ac yn cynnig profiad go iawn mewn gwasanaethau cwsmeriaid, peirianneg a sgiliau treftadaeth, gan fagu hyder a gwella cyflogadwyedd a chydlyniant cymunedol wrth amddiffyn treftadaeth ddiwylliannol Cymru ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.	Sir Ddinbych Sir y Fflint Wrecsam	£58,997.12

Enw'r mudiad	Disgrifiad 50 gair	Sir	Dyfarniad grant
Cwmni Buddiant Cymunedol Manage Money Wales	Byddwn yn cyflogi Rheolwr Gwirfoddolwyr i recriwtio, hyfforddi a chefnogi tîm amrywiol o wirfoddolwyr yn ein prosiect Siop Siario Gymunedol ym Mhorth, Rhondda Cynon Taf, sy'n helpu i drechu tlodi, lleihau gwastraff ac adeiladu cysylltiadau cymunedol. Mae'r prosiect cynhwysol hwn yn cryfhau llesiant a chynaladwyedd trwy wirfoddoli â chymorth mewn amgylchedd croesawgar, amlddiwylliant.	Rhondda Cynon Taff	£59,554.00
Menter Dinefwr	Prosiect gwirfoddoli newydd yw Dathlu Dinefwr, a'i nod yw cynnig cyfleoedd hyfforddi a datblygu sgiliau i wirfoddolwyr ifanc a phobl hŷn, wrth ddogfennu, gwarchod, ac adrodd hanes ardal Dinefwr drwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd yn cryfhau'r defnydd o'r Gymraeg wrth warchod treftadaeth, ac yn meithrin cysylltiadau rhyng-genhedlaeth cynaliadwy.	Sir Gaerfyrddin	£60,000.00
Cwmni Buddiant Cymunedol Ministry of Life	Bydd y prosiect hwn yn creu llwybrau i wirfoddoli ar gyfer rhai o bobl ifanc fwyaf ymylol de Cymru sydd bellaf o'r farchnad lafur. Byddwn yn cysylltu'r rheini sy'n dod i'n pedwar clwb ieuenctid â buddion unigryw'r rhaglen hon er mwyn creu cyfleoedd parhaol, go iawn i wella eu sgiliau a'u hyder a bod yn barod am waith.	Caerdydd	£34,000.00
Cwmni Buddiant Cymunedol Neurobusiness	Mae Rhaglen Rymuso NeuroBusiness yn creu cyfleoedd gwirfoddoli cynhwysol wedi'u dylunio gan ac ar gyfer pobl niwrowahanol. Bydd gwirfoddolwyr yn magu hyder ac yn cael cysylltiadau a sgiliau newydd wrth gyfrannu at brosiectau cymunedol ledled de Cymru. Mae'r rhaglen yn cael gwared ar rwystrau, yn dathlu cryfderau ac yn helpu pobl niwrowahanol i ffynnu drwy wirfoddoli ystyrlon â chymorth.	Rhondda Cynon Taff	£47,560.00

Enw'r mudiad	Disgrifiad 50 gair	Sir	Dyfarniad grant
One Step Counselling and Mental Health Services	Bydd Steps Together: Befriending (Cyfeillio) Castell-nedd Port Talbot yn recriwtio, hyfforddi ac yn cefnogi 30 o wirfoddolwyr newydd i fod yn gwmni i bobl hŷn sy'n teimlo'n ynysig ledled Castell-nedd Port Talbot drwy ymweliadau cartref, galwadau ffôn a chyfleoedd i gwrdd yn y gymuned – gan leihau unigrwydd, gwella llesiant a chryfhau cysylltiad cymunedol drwy gyfleoedd gwirfoddol cynhwysol o ansawdd uchel.	Castell-nedd Port Talbot	£45,460.00
Pathfinders Cymru	Bydd Pathfinders Cymru yn datblygu llwybrau gwirfoddoli cynhwysol i bobl ifanc ac oedolion sy'n wynebu rhwystrau, gan gynnwys heriau iechyd meddwl ac anableddau. Bydd gwirfoddolwyr yn cael hyfforddiant, mentora a chyfleoedd i gyfrannu drwy'r celfyddydau, STEM a gweithgareddau cymunedol, gan ennill mwy o sgiliau, magu hyder a chreu rhwydweithiau cymunedol cryfach.	Castell-nedd Port Talbot	£59,500.00
Plant Dewi	Byddwn yn recriwtio Cydlynydd Gwirfoddolwyr i hyrwyddo gwirfoddoli, recriwtio, rheoli a chefnogi amrediad o wirfoddolwyr ar draws gwaith Plant Dewi yn Sir Gaerfyrddin.	Sir Gaerfyrddin	£59,551.00
Platfform Dros Newid	Bydd Platfform yn gwella gwirfoddoli drwy recriwtio Cydlynydd Gwirfoddolwyr. Bydd ef neu hi yn cynnig cymorth wedi'i dargedu i wirfoddolwyr, yn symleiddio prosesau recriwtio, yn gwella prosesau cynefino ac yn gwella'r hyfforddiant fel bod pobl sy'n profi iechyd meddwl gwael yn teimlo'n ddiogel, yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth a'u bod yn gallu ffynnu mewn rolau gwirfoddoli. Byddwn yn adolygu ac yn gweithredu strategaeth wirfoddoli ar draws y mudiad ac yn cefnogi gwirfoddoli mudiadau partner.	Caerffili	£59,866.06

Enw'r mudiad	Disgrifiad 50 gair	Sir	Dyfarniad grant
Cyngor Hil Cymru	Mae llawer o bobl ifanc (16-24) ac oedolion hŷn (50+) o gymunedau ethnig amrywiol yng Nghymru mewn perygl o gael eu gadael allan o wirfoddoli oherwydd rhwystrau ieithyddol, allgau digidol, hiliaeth a diffyg hyder. Bydd y prosiect hwn yn mynd i'r afael â'r anghydraddoldebau hyn drwy allgymorth, hyfforddiant a chyfleoedd gwirfoddoli a grëwyd ar y cyd sy'n cysylltu cenedlaethau ac yn hybu cyfranogiad cynhwysol ledled Cymru.	Abertawe Caerdydd Wrecsam	£51,800.00
Rubicon Dance	Fel rhan o ben-blwydd 50 oed Rubicon Dance, byddwn yn cyflwyno rhaglen wirfoddoli sy'n cefnogi gweithgareddau dawns cymunedol ledled Caerdydd. Bydd gwirfoddolwyr yn cael hyfforddiant, mentora a phrofiad ymarferol, gan gyfrannu at ymgysylltiad hygyrch o ansawdd uchel mewn ysgolion, stiwdios a lleoliadau cymunedol.	Caerdydd	£58,953.00
Scouts Cymru	Bydd ScoutsCymru yn creu Tîm Gwirfoddoli Cymunedau Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (EDI), gyda chefnogaeth staff a gwirfoddolwyr, er mwyn ymhél â chymunedau gwledig yn Sir Gaerfyrddin a chymunedau ethnig lleiafrifol yng Nghasnewydd. Trwy sioeau teithiol, digwyddiadau cymunedol, hyfforddiant a chyfleoedd gwirfoddoli hygyrch, bydd y prosiect yn cael gwared ar rwystrau, yn adeiladu cysylltiadau ac yn ysbrydoli pobl o bob cefndir i wirfoddoli.	Castell-nedd Port Talbot Sir Gaerfyrddin	£58,758.00
Shared Earth Trust	Mae Root & Branch: Volunteer Growth Programme yn ennyn pobl ifanc yng Ngheredigion i gysylltu â natur a gwirfoddoli, dysgu sgiliau newydd a gwneud gwahaniaeth i'w cymuned. Trwy gadwraeth ymarferol, garddio a mentora gan wirfoddolwyr mwy aeddfed, bydd gwirfoddolwyr ifanc yn magu hyder a balchder lleol wrth helpu eu hamgylchedd i ffynnu.	Ceredigion	£48,894.64

Enw'r mudiad	Disgrifiad 50 gair	Sir	Dyfarniad grant
Sharon Full Gospel Church	Mae Sharon Full Gospel Church ym Mhont-y-pŵl yn gwasanaethu un o ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru trwy ei hyb Gobaith i'r Gymuned, sy'n cynnig bwyd, cynhesrwydd a chyfeillgarwch i fwy na mil o bobl bob blwyddyn. Bydd y prosiect hwn yn cryfhau, hyfforddi ac yn cefnogi gwirfoddolwyr, gan adeiladu diwylliant gwirfoddoli cynhwysol o ansawdd uchel sy'n cyd-fynd â'r safonau Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr.	Torfaen	£51,537.72
Signposted Cymru LTD (SPC)	Byddwn yn cyflwyno rhaglen wirfoddoli gynhwysol sy'n rhoi hyfforddiant achrededig, cymorth llesiant a chydnabyddiaeth i bob gwirfoddolwr. Bydd Cydlynydd Gwirfoddolwyr penodedig yn recriwtio, hyfforddi ac yn cefnogi gwirfoddolwyr, gan sicrhau bod pawb yn teimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi ac yn teimlo'n hyderus a chysylltiedig wrth gyfrannu at gymunedau iachach, mwy cydlynus ledled Rhondda Cynon Taf.	Rhondda Cynon Taff	£34,939.20
Sported Foundation	Bydd Rheolwr Partneriaethau'r prosiect yn arwain a hwyluso cydweithrediad traws-sector yng ngrwpiau gweithredu cydweithredol Prosiect Gwirfoddoli Strategol Cymru sydd newydd eu sefydlu (N=5). Bydd y prosiect yn galluogi mwy na 40 o fudiadau traws-sector i gyflwyno datrysiadau cydweithredol sy'n cryfhau gwirfoddoli mewn rolau llywodraethu o fewn Sector Chwaraeon Cymunedol Cymru.	Pan Wales	£60,000.00
Ymddiriedolaeth St Giles	Ceisio am gyllid i recriwtio Cydlynydd Gwirfoddolwyr rhan-amser yn ne Cymru. Bydd y swydd yn cryfhau'r seilwaith gwirfoddoli ar draws Caerdydd ac Aberdulais, yn datblygu llwybrau cynhwysol i bobl â phrofiad bywyd, yn cyflawni safon ansawdd Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr ac yn creu gwirfoddoli cynaliadwy, o ansawdd uchel sy'n cefnogi datblygiad i mewn i waith a llesiant.	Caerdydd Castell-nedd Port Talbot	£55,895.50

Enw'r mudiad	Disgrifiad 50 gair	Sir	Dyfarniad grant
Cwmni Buddiant Cymunedol Surf Therapy	Bydd y Prosiect Cydlynydd Gwirfoddolwyr yn cyllido Cydlynydd Gwirfoddoli rhan-amser dynodedig. Bydd y rôl hon yn recriwtio, hyfforddi ac yn cefnogi gwirfoddolwyr, yn rheoli gwiriadau a sesiynau DBS ac yn cryfhau ein fframwaith gwirfoddoli. Gyda throsolwg clir, byddwn yn gwella'r capasiti, yn gwella profiad gwirfoddolwyr ac yn sicrhau bod therapi syrffio yn cael ei gyflawni'n ddiogel ac yn effeithiol.	Abertawe	£22,182.00
Swansea Asylum Seekers Support (SASS)	Bydd y grant yn cyllido swydd Gweithiwr Datblygu Gwirfoddolwyr allweddol, yn ein cefnogi i ymgysylltu a datblygu gwirfoddolwyr yn SASS, gan geiswyr lloches a ffoaduriaid fel ei gilydd a chan eraill yng nghymunedau lleol Abertawe – ar hyn o bryd, mae gennym ymhell dros 100 o wirfoddolwyr gweithredol, hanner a hanner o'r ddau grŵp.	Abertawe	£58,296.00
Swansea Community Workshops	Bydd Gweithdai Cymunedol Abertawe yn cyflwyno rhaglen wirfoddoli greadigol i 15 o gyfranogwyr, gan gynnig sgiliau crefftio ymarferol, mentora a chyfleoedd i ymgysylltu â'r gymuned. Bydd gwirfoddolwyr yn cael hyder, profiad a chymorth llesiant wrth gyfrannu at brosiectau cynhwysol a chynaliadwy sy'n fuddiol i gymuned ehangach Abertawe drwy rannu sgiliau a chydweithio.	Abertawe	£42,600.00
Mosg Abertawe	Creu dwy swydd ran-amser o blith ein gwirfoddolwyr fel y gallant gynnal y gwaith o redeg y mudiad. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys gweithgareddau ieuenctid, dosbarthu banc bwyd a chefnogi digwyddiadau cymunedol. Rydym eisiau denu gwirfoddolwyr o bob oed, ethnigrwydd a rhyw. Bydd hyn yn caniatáu i ni greu cymuned gydlynus ddedwydd.	Abertawe	£60,000.00

Enw'r mudiad	Disgrifiad 50 gair	Sir	Dyfarniad grant
Y Ganolfan Entrepreneuriaeth Affricanaidd (CAE)	Mae VOLVE yn cryfhau gwirfoddoli yn y CAE, gan alluogi ceiswyr lloches, ffoaduriaid a mudwyr i gyfrannu mewn modd diogel, cyfrinachol ac ystyrlon. Gan adeiladu ar yr ymarfer bresennol, mae'r prosiect hwn yn canolbwyntio ar adeiladu capasiti er mwyn ymwreiddio arferion gorau, sicrhau cynaliadwyedd a chreu buddion i bawb, gan rymuso gwirfoddolwyr gyda sgiliau, hyder ac ymdeimlad o berthyn wrth i ni ehangu ein heffaith gymunedol.	Abertawe	£54,987.92
Sefydliad S.A.F.E.	Mae Prosiect Mentora Ysgogwyr Newid Ifanc SAFE yn rhaglen mentora a datblygu gwirfoddolwyr sydd wedi'i ddylunio i rymuso pobl ifanc rhwng 18 a 30 oed sy'n wynebu rhwystrau i gymryd rhan mewn gwirfoddoli. Bydd SAFE yn recriwtio a hyfforddi Mentoriaid Ysgogi Newid gwirfoddol i gefnogi Ysgogwyr Newid ifanc i fagu hyder, diben ac ymdeimlad o berthyn wrth gyfrannu at newid cymdeithasol positif.	Abertawe Bro Morgannwg Caerdydd	£59,967.80
Hosbis Plant Tŷ Hafan	Bydd y prosiect dwy flynedd hwn yn gwella profiad gwirfoddolwyr yn Nhŷ Hafan drwy roi ein Strategaeth Gwirfoddolwyr newydd ar waith, a lywiwyd gan adborth gwirfoddolwyr. Ei nod yw gwella cynhwysiant, cymorth, cydnabyddiaeth a chyfathrebu, ac ennill achrediad Buddsoddi mewn Pobl - gan sicrhau bod gwirfoddolwyr yn teimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi, eu grymuso a'u bod yn rhan annatod o lwyddiant ein helusen.	Abertawe Bro Morgannwg Caerdydd Caerffili Castell-nedd Port Talbot Ceredigion Merthyr Tudful Pen-y-bont ar Ogwr Rhondda Cynon Taff Sir Fynwy Sir Gaerfyrddin	£59,894.00

Enw'r mudiad	Disgrifiad 50 gair	Sir	Dyfarniad grant
Urdd Gobaith Cymru	Bydd cynllun SWOGS URDD yn canolbwyntio ar leihau'r rhwystrau ariannol sydd i bobl ifanc i wirfoddoli a'u grymuso i ennill profiadau a sgiliau gwerthfawr. Bydd yn meithrin hyder i wirfoddoli ac yn darparu cyfleoedd i ddatblygu'n bersonol ac yn broffesiynol, i fedru trosglwyddo'r sgiliau i'w haddysg a'r byd gwaith.	Abertawe Castell-nedd Port Talbot Merthyr Tudful Sir y Fflint Wrecsam	£45,568.00
Tir Gwyllt	Bydd y prosiect yn grymuso pobl sydd angen mwy o gefnogaeth i wirfoddoli, yn bennaf, pobl niwrowahanol a/neu bobl â phroblemau iechyd meddwl, drwy roi mwy o gymorth iddynt gymryd rhan mewn gwirfoddoli yn y maes cadwraeth amgylcheddol ledled gogledd-ddwyrain Cymru.	Sir Ddinbych Sir y Fflint Wrecsam	£54,500.36
Cwmni Buddiant Cymunedol Women Advocacy Network (WAN Cymru)	Gan ddechrau ym Mawrth 2026, bydd prosiect dwy flynedd WAN Cymru, Thriving Futures Together, yn hyfforddi a chynorthwyo gwirfoddolwyr i ennill sgiliau a hyder newydd. Yn eu tro, byddant yn grymuso menywod, merched a theuluoedd ledled Cymru. Cryfhau llesiant, cyfle a gwydnwch o fewn cymunedau drwy gymorth gan gymheiriaid a phrofiadau bywyd a rennir.	Bro Morgannwg Caerdydd	£54,800.00
Prosiect Glowyr Wrecsam	Gydag Arweinydd Gwirfoddolwyr penodedig, bydd Prosiect Glowyr Wrecsam yn cryfhau gwirfoddoli drwy gynnig arweiniad, hyfforddiant a chydnabyddiaeth i wirfoddolwyr o bob gallu. Bydd y cymorth hwn yn sicrhau bod eu cyfraniadau yn cael eu gwerthfawrogi a'u bod yn ychwanegu at ein huchelgais i ennill achrediad Buddsoddi mewn Pobl (IiV), gan ymwreiddio arferion gorau ar draws y mudiad.	Wrecsam	£59,956.00